

PRIFFYRDD, CYMRU

2012 Rhif

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (PRIFFORDD DDIENW RHWNG STRYD MALIPHANT A HEOL MORFA, HAFOD, ABERTAWE) 2012

Gwnaed 23 Gorffennaf 2012

Yn dod i rym 27 Gorffennaf 2012

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1990") a phob pŵer galluogi arall(2).

1. Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" (*"the Council"*) yw Cyngor Sir Dinas a Sir Abertawe;

ystyr "y datblygwr" (*"the developer"*) yw'r person sy'n cyflawni'r datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "y plan a adneuwyd" (*"the deposited plan"*) yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Priffordd ddiennw rhwng Stryd Maliphant a Heol Morfa, Hafod, Abertawe) 2012" ac sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog du a gwyn ar y plan a adneuwyd, gan eu bod wedi eu bodloni bod angen ei gau i alluogi cyflawni'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn, yn unol â'r caniatadau cynllunio a roddwyd gan y Cyngor o dan Ran III o Ddeddf 1990, ar 1 Chwefror 2012 o dan y cyfeirnod 2011/1305.

3. Rhaid creu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y rhan newydd briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd, ac a fydd yn briffordd sydd, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(3) i'w chynnal a'i chadw ar draul y cyhoedd, a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd drosti.

4. Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn hyd nes bo:-

- (a) y datblygwr wedi darparu planiau sydd, er boddhad rhesymol y Cyngor, yn dangos ym mha fodd y bwriedir cau'r rhan o briffordd;
- (b) y datblygwr wedi darparu'r briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;
- (c) y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a'r datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor mewn ysgrifennu o'r rheidwydd i gau'r rhan o briffordd er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac
- (d) y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr yn cadarnhau bod darpariaethau (a), (b) ac (c) o'r erthygl hon wedi'u cyflawni.

5. Os bydd, yn union cyn cau'r rhan o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, unrhyw offer ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, yna, (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o hyd, o ran yr offer, ag a oedd ganddynt cyn y cau.

6. Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi'i ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel hyd y caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

7. Daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi gyntaf yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990, ac enw'r Gorchymyn fydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Priffordd ddienw rhwng Stryd Maliphant a Heol Morfa, Hafod, Abertawe) 2012.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Gorffennaf 2012

Richard Morgan

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1990 p.8.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

(3) 1980 p.66

YR ATODLENNI

(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ddiennw nas mabwysiadwyd, rhwng Stryd Maliphant a Heol Morfa yn Hafod, Abertawe, o bwynt 10 metr i'r dwyrain o wyneb dwyreiniol y drosbont reilffordd bresennol hyd at bwynt 42 metr i'r dwyrain o wyneb dwyreiniol y drosbont reilffordd honno. Hyd y darn ar y mwyaf yw 32 metr, ei led ar y mwyaf yw 9.2 metr a chyfanswm ei arwynebedd yw 247 metr sgwâr.

SCHEDULE 2

Disgrifiad o'r rhan o briffordd newydd sydd i'w darparu

Darn o dir afreolaidd ei siâp i'r dwyrain o'r briffordd a elwir Heol Morfa yn Hafod, Abertawe, ac yn ymestyn yn gyfochrog i'r briffordd honno. Hyd y darn ar y mwyaf yw 265 metr, ei led ar y mwyaf yw 2 fetr a chyfanswm ei arwynebedd yw 530 metr sgwâr.

SCHEDULE 3

Y datblygiad arfaethedig

Adeiladu Canolfan Gynnal ar gyfer y Rhaglen Intercity Express, gan gynnwys pont droed a ramp mynediad, sied archwilio, cyfleuster golchi trenau, storfa ac ystafell amwynder ar gyfer glanhawyr, ystafell bwmpio i'r fferm danwydd, ystafell tanciau tanwydd, ystafell bwmpio toiledau allyriant rheoledig, is-orsaf foltedd uchel, ystafell switshis a thrawsnewidydd, ffensys diogelwch, goleuadau, cyfleuster teledu cylch cyfyng, wal gynnal, cloddfeydd, gwaith tracio, cyfleusterau parcio cysylltiedig a thirlunio ar dir a rhan o briffordd nas mabwysiadwyd rhwng Stryd Maliphant a Heol Morfa yn Hafod, Abertawe.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (PRIFFORDD DDIENW RHWNG STRYD MALIPHANT A HEOL MORFA, HAFOD, ABERTAWE) 2012

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, ac i ddarparu ar gyfer y rhan newydd o briffordd fel y disgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud yr awdurdodir cau'r briffordd. Bydd y Gorchymyn yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio i ben, neu os diddymir y caniatâd.

Yn ystod y cyfnod o 6 wythnos o 27 Gorffennaf 2012 ymlaen, gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adnewyd yn ddi-dâl yn swyddfeydd Dinas a Sir Abertawe, Y Ganolfan Gyswllt, Y Dderbynfa, Y Ganolfan Ddinesig, Abertawe SA1 3SN, yn ystod oriau swyddfa arferol neu gellir eu cael yn ddi-dâl o'r cyfeiriad isod.

Os bydd unrhyw berson yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw un neu rai o'r Darpariaethau sydd ynddo, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. bod ei fuddiannau wedi cael eu rhagfarnu'n sylweddol oherwydd methiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw o fewn 6 wythnos i 27 Gorffennaf 2012 wneud cais i'r Uchel Lys am atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth a geir ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar www.cymru.gov.uk (detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth, Cymru', 'Gorchymynion Cau TCPA', '2012').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

M D Burnell

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ddiennw nas mabwysiadwyd, rhwng Stryd Maliphant a Heol Morfa yn Hafod, Abertawe, o bwynt 10 metr i'r dwyrain o wyneb dwyreiniol y drosbont reilffordd bresennol hyd at bwynt 42 metr i'r dwyrain o wyneb dwyreiniol y drosbont reilffordd honno. Hyd y darn ar y mwyaf yw 32 metr, ei led ar y mwyaf yw 9.2 metr a chyfanswm ei arwynebedd yw 247 metr sgwâr.

SCHEDULE 2

Disgrifiad o'r rhan o briffordd newydd sydd i'w darparu

Darn o dir afreolaidd ei siâp i'r dwyrain o'r briffordd a elwir Heol Morfa yn Hafod, Abertawe, ac yn ymestyn yn gyfochrog i'r briffordd honno. Hyd y darn ar y mwyaf yw 265 metr, ei led ar y mwyaf yw 2 fetr a chyfanswm ei arwynebedd yw 530 metr sgwâr.

SCHEDULE 3

Y datblygiad arfaethedig

Adeiladu Canolfan Gynnal ar gyfer y Rhaglen Intercity Express, gan gynnwys pont droed a ramp mynediad, sied archwilio, cyfleuster golchi trenau, storfa ac ystafell amwynder ar gyfer glanhawyr, ystafell bwmpio i'r fferm danwydd, ystafell tanciau tanwydd, ystafell bwmpio toiledau allyriant rheoledig, is-orsaf foltedd uchel, ystafell switshis a thrawsnewidydd, ffensys diogelwch, goleuadau, cyfleuster teledu cylch cyfyng, wal gynnal, cloddfeydd, gwaith tracio, cyfleusterau parcio cysylltiedig a thirlunio, ar dir a rhan o briffordd nas mabwysiadwyd rhwng Stryd Maliphant a Heol Morfa yn Hafod, Abertawe, yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan Ddinas a Sir Abertawe o dan Ran III o Ddeddf 1990, ar 1 Chwefror 2012 o dan y cyfeirnod 2011/1305.